# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Talhaearn**

**Ysgol Talhaearn**
**Llanfair Talhaearn**
**Abergele**
**LL22 8SD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

04/02/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac mae ganddynt lawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella.<br><br>Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na<br><br>chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Talhaearn wedi'i leoli ym mhentref Llanfair Talhaearn, Conwy. Mae'r gwasanaeth gwledig yn gweithredu yn ystod y tymor o gaban ar safle'r ysgol leol, sef Ysgol Llanfair Talhaearn. Mae'r gwasanaeth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9:00am a 12:00pm. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am 30 o blant ac mae'n cael cyllid Hawl i Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer plant tair cymwys acyn cael ei arolygu gan Estyn. Bethan Barclay yw'r person cofrestredig a Fiona Nash yw'r person â chyfrifoldeb. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb

| Theme | Rating |
|---|---|
| Lles | Da |
| Gofal a Datblygiad | Da |
| Yr amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn cael gofal da, mae ganddynt lais cryf ac maent yn mwynhau'r gweithgareddau diddorol. Maent yn ffynnu, yn magu hyder ac yn datblygu'n llwyddiannus. Mae'r plant yn cael gofal gan ymarferwyr profiadol a medrus sy'n darparu gweithgareddau ysgogol ac sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i'w diogelwch. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac wedi'i gynllunio'n dda, gyda digonedd o deganau ac ardaloedd chwarae i feithrin sgiliau'n effeithiol. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ac mae hyn yn sicrhau lefel dda o ofal i'r plant gan dîm ymroddedig o ymarferwyr. Mae partneriaethau llwyddiannus a chadarn â'r rhieni, yr ysgol a'r gymuned leol, sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plant.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad blaenorol:

- prynwyd teganau ac adnoddau ychwanegol er mwyn darparu amrywiaeth ehangach o weithgareddau diddorol i'r plant;
- sefydlwyd tudalen ddiogel ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn annog mwy o gyfathrebu rhwng y rhieni a'r gofalwyr;
- mae llawr newydd yn ei gwneud yn haws rheoli gweithgareddau chwarae blêr.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom un argymhelliad mewn perthynas â threfniadau arwain a rheoli'r gwasanaeth.

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae gan y plant lais cryf, maent yn mynegi eu hunain yn dda ac yn gwneud dewisiadau mewn ffordd hyderus. Maent yn ffynnu ac yn llwyddo am eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gwerthfawrogi. Maent yn dechrau dysgu sgiliau cymdeithasol gwerthfawr yn llwyddiannus. Mae'r plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig, ac maent yn mwynhau amrywiaeth o brofiadau ysgogol yn y gwasanaeth hwn. Maent yn dysgu sgiliau amrywiol ac o ganlyniad maent yn datblygu'n dda ac yn dod yn annibynnol.

### Ein canfyddiadau

Gwrandewir ar y plant a chaiff eu dewisiadau eu parchu. Er enghraifft, roedd y plant yn helpu eu hunain i'r toes chwarae a'r llyfrau, ac roedd y bwyd adar wedi cael ei osod yn yr awyr agored gan fod y plant am ofalu am yr adar. Roedd y plant yn hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda. Er enghraifft, clywsom y plant yn siarad am ddigwyddiadau teuluol amser byrbryd.

Roedd y plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Gwnaethant ymdopi'n dda wrth ffarwelio â'u rhieni, setlo'n dda a dangos bodlonrwydd. Roedd y plant yn archwilio eu hamgylchedd yn hyderus, gan ddefnyddio'r hambwrdd darganfod a chwarae ag amrywiaeth o deganau yn yr awyr agored. Roedd y plant yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd, er enghraifft wrth chwarae rheoli traffig gyda'r beiciau.

Roedd y plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r ymarferwyr. Roeddent yn dysgu sut i rannu gyda chymorth ac anogaeth, er enghraifft drwy gymryd eu tro i ddefnyddio'r teclynnau toes. Dangosodd y plant eu bod yn mwynhau cydweithio â'r ymarferwyr wrth dacluso'r teganau ac roeddent yn galw'r ymarferwyr wrth eu henwau. Roeddent yn dechrau deall anghenion pobl eraill wrth iddynt helpu ei gilydd i wisgo eu cotiau a'u hesgidiau glaw.

Roedd y plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig, ac roeddent yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau. Roeddent
wedi ymddiddori yn eu gweithgareddau chwarae a dysgu ac yn llawn cymhelliant, gyda rhai o'r gweithgareddau'n cael eu harwain gan oedolion, megis paentio eliffant yn llwyd neu chwarae â dolis mewn bygis. Roedd y plant yn awyddus i rannu'r hyn roeddent wedi'i greu ag eraill wrth iddynt sgwrsio am adeiladu â briciau amser byrbryd.

Roedd y plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau, gan gynnwys cyfleoedd chwarae a ddewiswyd yn rhydd a chyfleoedd wedi'u harwain ganddynt eu hunain, a oedd yn eu galluogi i ddatblygu'r sgiliau i fod yn annibynnol, megis gwisgo dillad tywydd gwlyb a rhoi eu llestri budr mewn powlen ar ôl cael eu byrbryd. Roeddent yn dysgu sut i fynd i'r toiled a golchi eu dwylo. Roeddent yn helpu eu hunain i deganau ac adnoddau o'r ardaloedd

chwarae ac yn gallu arllwys eu diodydd eu hunain adeg byrbryd.  Roedd y plant yn barod i roi cynnig ar brofiadau newydd gan eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi.

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae'r ymarferwyr medrus yn creu awyrgylch gofalgar a diogel, ac yn cadw'r plant yn ddiogel yn gyson ac yn iach yn llwyddiannus drwy roi polisïau a gweithdrefnau cytunedig ar waith. Maent yn rheoli'r rhyngweithio'n dda, maent yn fodelau rôl da ac yn defnyddio strategaethau effeithiol i annog ymddygiad cadarnhaol. Mae'r ymarferwyr proffesiynol ac ymroddedig yn hybu dysgu'r plant drwy chwarae, gan ddarparu gweithgareddau ysgogol. Maent yn diwallu anghenion unigol y plant i sicrhau eu llesiant.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr ymarferwyr yn creu awyrgylch hapus ac yn deall polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth a'u rhoi ar waith er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Roeddent wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac yn dangos eu bod yn barod i gysylltu â'r asiantaethau perthnasol pe bai angen. Roedd gan bob ymarferydd gymwysterau cymorth cyntaf cyfredol ac roedd ffurflenni damweiniau yn dangos bod y gwasanaeth yn ymdrin â digwyddiadau yn briodol a bod y rhieni'n cael gwybod amdanynt ac yn llofnodi cofnodion damweiniau. Roedd ffyrdd iach o fyw yn cael eu hyrwyddo gan fod yr ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn mwynhau manteision chwarae yn yr awyr agored. Hefyd, roedd yr ymarferwyr yn rhoi byrbrydau iach i'r plant, megis ffrwythau, gyda llaeth neu ddŵr i'w yfed. Roedd yr arwynebau'n cael eu cadw'n lân ac roedd y plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta, yn unol â chanllawiau cyfredol. Roedd cofnodion ymarferion tân rheolaidd yn dangos bod yr ymarferwyr a'r plant yn gwybod sut i adael y safle mewn argyfwng.

Roedd yr ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio'r plant yn llwyddiannus drwy ddefnyddio strategaethau effeithiol, gan gynnwys drwy roi esboniadau syml, gan helpu'r plant i gydweithredu a dysgu sgiliau cymdeithasol. Roeddent yn ymgysylltu'n dda â grwpiau bach o blant a phlant unigol, er enghraifft wrth chwarae yn yr awyr agored ac yn ystod amser byrbryd. Roedd yr ymarferwyr yn fodelau rôl da ac yn annog y plant i fod yn gwrtais. Roedd yr ymarferwyr yn canmol ac yn dathlu ymddygiad da, megis helpu i dacluso neu fod yn garedig. Roedd yr ymarferwyr yn rhoi tasgau syml i'r plant drwy ddefnyddio ‘Helpwr Heddiw’, a oedd yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad i'r plant.

Roedd yr ymarferwyr galluog a medrus yn hybu dysgu'r plant drwy ddarparu amgylchedd chwarae cyfoethog ac roeddent yn diwallu anghenion unigol gan eu bod yn adnabod y plant yn dda. Roeddent yn rhoi gofal ymatebol yn dda, am eu bod yn casglu manylion am y plant gan y rhieni ar lafar ac ar ffurflenni cofrestru, megis gwybodaeth am alergeddau'r plant. Roedd yr ymarferwyr yn hybu datblygiad y plant drwy gynllunio a darparu cyfoeth o brofiadau chwarae a dysgu ysgogol, megis cyfleoedd ieithyddol ac adnabod rhifau a siapiau. Roeddent yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, a datblygiad cyffredinol y plant yn effeithiol gan ddefnyddio rhaglenni amrywiol. Roedd yr ymarferwyr yn gwybod pryd

i gwestiynu’r plant er mwyn eu helpu i fanteisio i'r eithaf ar y gweithgareddau a phryd i sefyll o'r neilltu a gwylio. Roedd arsylwadau'n dylanwadu ar y gwaith o gynllunio gweithgareddau gan fod system effeithiol yn cael ei defnyddio ar gyfer asesu.

## 3. Yr Amgylchedd Da

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd glân a diogel, ac mae asesiadau risg ysgrifenedig yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'r plant yn cael eu goruchwylio'n dda, dan do ac yn yr awyr agored, gan ymarferwyr gwybodus. Mae'r amgylchedd yn ysgogol, yn canolbwyntio ar y plentyn, ac yn cynnig profiadau uniongyrchol i'r plant. Ceir teganau a gemau o ansawdd da ac mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol a hyblyg ohonynt i greu amgylchedd diddorol ac addysgol i'r plant.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda dan do ac yn yr awyr agored. Roedd mynedfa ddiogel â chlo arni ac roedd cofnod yn cael ei gadw o'r holl ymwelwyr gan atal mynediad diawdurdod. Nid oedd unrhyw beryglon mewn unrhyw ardaloedd y tu mewn na'r tu allan, er enghraifft roedd gard ar bob rheiddiadur, ac roedd ffotograffau'n dangos bod y plant yn gwisgo siacedi llachar wrth fynd am dro yn y gymuned. Roedd asesiadau risg ysgrifenedig cynhwysfawr ac archwiliadau cyfredol o'r cyfarpar wedi cael eu hadolygu a'u dyddio'n ddiweddar, ac roedd yr ymarferwyr yn gyfarwydd â'u cynnwys. Roedd y safle'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd yr arweinwyr yn sicrhau ei fod yn cael ei wella'n gyson er budd y plant.

Roedd yr arweinwyr yn darparu amgylchedd diddorol ac ysgogol i'r plant a oedd yn addas ar eu cyfer. Roedd y brif ystafell chwarae yn fach ac roedd yr ardaloedd chwarae a dysgu wedi'u gosod ar lefel taldra'r plant er mwyn iddynt eu defnyddio'n hawdd. Roedd yr ardal awyr agored yn cael ei defnyddio ar gyfer chwarae mewn dŵr a thywod ac yn cynnwys mannau i'r plant balu a phlannu blodau a chegin fwd. Roedd cadeiriau a byrddau cadarn maint plant yn cael eu defnyddio ac arddangoswyd gwaith y plant yn ddeniadol, gan roi ymdeimlad o berthyn iddynt. Roedd yr ardal awyr agored yn amrywiol ac yn cynnwys iard ac ardal laswelltog. Roedd yr ymarferwyr yn defnyddio'r ardal awyr agored yn effeithiol er mwyn darparu gweithgareddau corfforol i'r plant. Roedd cyfleusterau addas dan do ar gael, gan gynnwys toiledau a basnau ymolchi bach i'r plant eu defnyddio'n annibynnol.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn gallu mwynhau ystod eang o adnoddau chwarae a dysgu ysgogol o ansawdd da. Roedd digon o weithgareddau a theganau ar gael er mwyn sicrhau bod gan y plant ddewis diddorol. Roedd yr holl deganau a gemau yn lân, yn gweithio'n dda ac roedd digon o gyfleusterau storio wedi'u trefnu'n dda. Roedd yr arweinwyr wedi darparu llyfrau a theganau i gynrychioli'r gymdeithas ehangach a hyrwyddo cydraddoldeb. Roedd digwyddiadau amlddiwylliannol yn cael eu trefnu a'u dathlu, roedd adnoddau cynaliadwy'n cael eu defnyddio wrth i'r plant ddefnyddio deunyddiau sothach i greu modelau ac roeddent yn ailgychu eitemau'n rheolaidd. Roedd deunyddiau naturiol ar gael i'r plant eu trin ac roeddent yn cael cyfleoedd i weld planhigion a blodau'n tyfu.

## 4. Arwain a Rheoli Da

**Crynodeb**

Mae'r arweinwyr yn brofiadol, yn wybodus, ac yn anelu at ddarparu gwasanaeth da. Mae'r broses hunanwerthuso yn gynhwysfawr ac yn effeithiol a gwneir gwelliannau gan ystyried pawb dan sylw sy'n creu canlyniadau cadarnhaol i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn cael eu rheoli'n dda ac mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cael digon o gymorth ac adnoddau yn barhaus. Mae partneriaethau cadarn â'r rhieni a'r ysgol ac mae'r plant yn dysgu am eu cymuned.

**Ein canfyddiadau**

Mae gan yr arweinwyr, sy'n cynnwys y person â chyfrifoldeb sy'n unigolyn ymrwymedig a phrofiadol, ac sy'n cael ei gefnogi gan y person cofrestredig, ymdeimlad o bwrpas a disgwyliadau er mwyn hybu gwelliant a chanlyniadau da i'r plant. Roedd y person â chyfrifoldeb yn effeithlon ac, o ganlyniad, gwelsom fod y gweithlu yn hapus ac yn gymwys. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod dyletswyddau cyfreithiol yn cael eu cyflawni, megis cael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol. Roeddent yn rhoi gwybod i AGC am ddigwyddiadau arwyddocaol, fel sy'n ofynnol, ac roedd y pwyllgor yn codi arian tuag at brynu adnoddau ychwanegol. Fodd bynnag, roedd y person â chyfrifoldeb yn gwneud rhai tasgau gweinyddol y gallai rhai aelodau o'r pwyllgor eu cyflawni. Roedd yr ymarferwyr hynod o gymwys yn rhagweld yr hyn yr oedd ei angen ar y plant, gan ddangos amynedd a charedigrwydd at bob plentyn.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn adnabod eu gwasanaeth yn dda ac yn hybu diwylliant effeithiol a chadarnhaol o hunanwerthuso a gwella parhaus, sydd wedi'i ymgorffori mewn ymarfer beunyddiol. Roedd adroddiad blynyddol cynhwysfawr ar ansawdd y gofal a hunanwerthusiadau eraill yn adlewyrchu’r mesurau sydd ar waith i sicrhau gwelliant. Gall y rhieni ddylanwadu ar y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg drwy siarad â'r ymarferwyr a thrwy gwblhau holiadur ysgrifenedig, yn ogystal â defnyddio'r llyfr awgrymiadau. Mae'r staff yn ymgynghori'nbarhaus â'r plant am weithgareddau gan ddefnyddio cynlluniau ysgrifenedig a sesiynau amser cylch dyddiol. Roedd yr adolygiad blynyddol yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth, gan gynnwys meysydd o arfer da a chynlluniau gwella, megis ffyrdd amgen o gyfathrebu â'r rhieni.

Gwelsom fod gan yr ymarferwyr cymwysedig a phrofiadol wybodaeth dda am y plant a oedd yn eu galluogi i ddiwallu eu hanghenion yn brydlon ac yn effeithiol, ac roedd eu hagwedd tuag at y plant yn dyner ac yn garedig. Roedd y dogfennau'n dangos bod proses recriwtio gadarn a thrylwyr ar waith er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn addas, er enghraifft mae gan bob un ohonynt wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac maent wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf.

Roedd y cydberthnasau â'r rhieni yn gadarn. Roeddent yn siarad yn agored â'r ymarferwyr ac yn cael cyfle i rannu eu barn yn ysgrifenedig, ac roedd y sawl y gwnaethom siarad â nhw yn canmol yr ymarferwyr a'r gwasanaeth. Defnyddir y cyfryngau cymdeithasol mewn modd diogel er mwyn rhannu gwybodaeth, ac mae nosweithiau rhieni'n cael eu cynnig er mwyn trafod datblygiad y plant â'r rhieni. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau agos â'r ysgol, ac mae'r plant yn cael cyfleoedd i ymweld â'r ysgol cyn mynd er mwyn ymgyfarwyddo â'r staff a'r adeilad. Caiff llawer o asiantaethau allanol eu defnyddio i fanteisio ar gyngor a chyrsiau. Mae'r plant yn dod yn gyfarwydd â'r gymuned drwy fynd ar deithiau cerdded rheolaidd i leoedd o ddiddordeb, er enghraifft i'r eglwys, y siop a swyddfa'r post. Mae ymwelwyr yn dod i'r gwasanaeth er mwyn gwella gwybodaeth y plant, megis cerddor yn chwarae drymiau Affricanaidd, ac mae'r rhieni'n dod ag amrywiaeth o anifeiliaid i'r gwasanaeth.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y dylai aelodau o'r pwyllgor fynychu rhai o'r sesiynau a chwarae mwy o ran yn y gwasanaeth. Bydd hyn yn rhoi mwy o gymorth i'r person â chyfrifoldeb.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 4 Chwefror 2020 rhwng 9:20 a 12:30.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau;
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau er mwyn cael tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu a'r gofal a ddarperir gan yr ymarferwyr;
- siarad â'r plant, dau riant a thri ymarferydd;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir;
- cyflwyno ein canfyddiadau i'r person cofrestredig dros y ffôn ar 4 Chwefror 2020.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Person Cofrestredig** | **Bethan Barclay** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Fiona Nash** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **30** |
| **Ystod oedran y plant** | **2 – 4 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9:00 a 12:00, yn ystod tymor yr ysgol** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **15 Chwefror 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **4 Chwefror 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy**<br>Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/03/2020